Un Wrecsam
Siarter o Berthyn

Cefndir i'r Siarter

Mae glyniad cymunedol wrth wraidd cymuned ddiogel. Mae'n cael ei greu trwy ddatblygu rhwydweithiau cymunedol cryfion, sy'n seiliedig ar yr egwyddor o gydraddoldeb, ymddiriedaeth a pharch am amrywiaeth leol, a meithrin ymdeimlad o berthyn a hyder ymysg pobl leol. Fel rhan o'r gwaith sy'n mynd yn ei flaen i gyflawni glyniad cymunedol, mae'r Cyngor yn gwahodd ei bartneriaid allweddol i gadarnhau eu hymroddiad i'r egwyddorion a gynhwysir yn siarter "Un Wrecsam" yn gyhoeddus.

Beth yw siarter "Un Wrecsam"?

Mae'n dystysgrif syml sy'n gosod allan datganiad o werthoedd ac ymroddiad. Bydd yn gyfle i ysgolion, colegau, busnesau, mudiadau cefnogaeth, grwpiau gwirfoddol a chymunedol, cymdeithasau preswylwyr, cylchoedd chwarae a chymunedau ffydd lleol ymuno â chyrff ac asiantaethau cyhoeddus i wneud datganiad cadarnhaol yn erbyn triniaeth annheg unrhyw un tra'n cydnabod eu rôl mewn gwneud Wrecsam yn lle croesawgar a diogel i bawb.

Sut fydd y siarter yn cael cyhoeddusrwydd?

Mae'r Cyngor yn datblygu cynllun cyhoeddusrwydd i sicrhau bod pawb yn Wrecsam yn gwybod am y siarter a bod cydnabyddiaeth a pharch am amrywiaeth yn egwyddorion sylfaenol i fudiadau sy'n dymuno gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddyfodol Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r cynllun cyhoeddusrwydd yn cynnwys:

- Posteri ac erthyglau yn y wasg
- Lansiad i'r rhai sy'n llofnodi'r siarter
- Lansiad cyhoeddus – byddwch yn derbyn manylion o hyn

Sut gall mudiad lofnodi'r siarter?

Gall y rhai sydd â diddordeb "lofnodi" os ydych yn bodloni meini prawf syml ac yn gwneud ymroddiad i gyflawni amcanion y siarter – manylir ar y rhain ar y ffurflen gais.

Unwaith i chi gwblhau a dychwelyd y ffurflen, bydd manylion eich mudiad yn cael eu hychwanegu at ein cronfa ddata a byddwn yn anfon gwybodaeth am Un Wrecsam a rhwydwaith y siarter atoch.

Mae tair ffurflen gais ar wahân sy'n gosod allan gofynion ychydig yn wahanol ar gyfer pob sector – un ar gyfer y sector cymunedol a gwirfoddol, un ar gyfer cyrff cyhoeddus ac un ar gyfer y sector busnes a phreifat. Mae hyn yn sicrhau ymateb

cymesur gan bob sector ac mae'n adlewyrchu cyfrifoldebau cyfreithiol, disgwyliadau ac adnoddau pob sector.

Mae ymroddiad i'r siarter yn para dwy flynedd. Ar ôl y cyfnod hwn, byddwch yn cael gwahoddiad i ailymgeisio a chadarnhau eich ymroddiad a dathlu unrhyw gynnydd neu lwyddiant o ganlyniad i'r siarter.

Bob blwyddyn, gofynnir i chi adrodd ar eich cynnydd a'ch llwyddiannau. Mae hwn yn gyfle hefyd i bob mudiad leisio unrhyw bryderon, syniadau neu awgrymiadau sydd ganddynt.

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cyhoeddi adroddiad blynyddol am lwyddiannau a chanlyniadau Un Wrecsam.

Sut bydd y siarter yn helpu i hybu glyniad cymunedol?

Bydd yn gyfle i ddatblygu dealltwriaeth a rennir o bwysigrwydd amrywiaeth gydag asiantaethau partner a'r cyhoedd. Bydd yn ein helpu hefyd i sefydlu sail ar gyfer gweithgareddau glyniad cynlluniedig eraill e.e. ymgyrch yn erbyn casineb hiliol.

Un o amcanion y siarter yw codi ymwybyddiaeth o natur amrywiol pobl Wrecsam ac anelu at hybu ymdeimlad o berthyn a gwerthoedd a rennir. Mae'r siarter yn helpu i hybu ymdeimlad o weithio gyda'n gilydd i gael gwared ar annhegwch a hybu parch a chydraddoldeb i bobl beth bynnag fo'u hil, rhyw, oedran, gogwydd rhywiol, crefydd neu gred neu os oes ganddynt anabledd.

A oes unrhyw gyfrifoldebau penodol i fudiadau sy'n mabwysiadu'r siarter?

Wrth lofnodi siarter Un Wrecsam, mae eich mudiad yn gwneud ymroddiad i wella ansawdd bywyd cymunedau amrywiol Wrecsam a chwarae rôl mewn creu Wrecsam gydlynol.

Fel aelod o siarter Un Wrecsam, disgwylir i chi:

- rannu arfer da trwy rwydwaith siarter Un Wrecsam
- gwneud cynnydd o ran hybu cydraddoldeb ac ymdrin ag amrywiaeth
- arolygu eich ffordd o weithio gan gynnwys eich polisïau ac arferion
- sicrhau bod eich gwasanaethau mor agored a chynhwysol â phosibl
- cefnogi staff a phobl sy'n gweithio yn eich mudiad neu grŵp i ddatblygu sgiliau a dealltwriaeth o amrywiaeth er mwyn hybu cynhwysiad a chydraddoldeb
- herio gwahaniaethu ac arferion annheg
- arddangos y siarter Un Wrecsam a hybu ymwybyddiaeth o'i nodau

Rhwydwaith Siarter Un Wrecsam

Unwaith i chi lofnodi'r siarter, byddwch yn dod yn rhan o rwydwaith siarter Un Wrecsam fel mater o drefn.

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cadw eich manylion ar gronfa ddata a bydd yn anfon gwybodaeth a diweddariadau atoch yn achlysurol. Byddwch yn cael eich gwahodd i fynychu cyfarfodydd a digwyddiadau i roi gwybod i chi am yr hyn sy'n digwydd fel rhan o Un Wrecsam a rhannu eich profiadau gyda mudiadau eraill sy'n rhan o'r siarter.

Trwy rwydwaith siarter Un Wrecsam, byddwch yn gallu cael cefnogaeth a chyngor i'ch helpu i ddatblygu eich ymagwedd at gydraddoldeb. Er enghraifft, bydd AVOW yn cynnig cefnogaeth arbenigol i'r sector cymunedol a gwirfoddol a bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cefnogi'r rhwydwaith Un Wrecsam trwy drefnu digwyddiadau a nosweithiau dysgu a rhwydweithio.

Beth sy'n digwydd os bydd rhywun yn cwyno?

Gall rhywun gwyno'n ysgrifenedig, trwy ebost, yn bersonol neu dros y ffôn yn uniongyrchol i'r mudiad maent yn cwyno amdano neu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (cysylltwch â'r Rheolwr Cydraddoldeb Celia Gibson ar 01978 292808).

Mae'r canllawiau canlynol yn cwmpasu'r holl gwynion a wneir mewn perthynas â siarter Un Wrecsam.

Os bydd cwyn yn cael ei gwneud yn uniongyrchol i fudiad sydd wedi mabwysiadu siarter Un Wrecsam:

Bydd y mudiad sy'n derbyn y gwyn yn delio â hi yn unol â'i bolisi ei hun. Os nad oes polisi ffurfiol mewn lle, mae'r canllawiau canlynol yn fframwaith ar gyfer trin y gwyn:

- Cydnabod derbyn y gwyn trwy ysgrifennu at yr achwynydd o fewn 7 diwrnod
- Ymchwilio'n llawn i'r gwyn
- Anelu at anfon ymateb llawn o fewn 14 diwrnod
- Diweddaru'r achwynydd o unrhyw gynnydd yn enwedig os bydd unrhyw oedi'n debygol cyn anfon ateb llawn
- Cynghori rheolwr cydraddoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam o'r gwyn a darparu copi o'r gwyn a'ch ymateb o fewn 21 diwrnod

Defnyddir cwynion ac atborth cwsmeriaid i barhau i wella mudiadau.

Os gwneir cwyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam am fudiad sydd wedi mabwysiadu siarter Un Wrecsam:

Bydd y Cyngor yn cysylltu â'r mudiad y mae'r gwyn yn ymwneud ag ef er mwyn datrys y mater.

Os nad yw'r gwyn yn cael ei datrys, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cadw'r hawl i beidio ag adnewyddu siarter Un Wrecsam mewn perthynas â'r mudiad dan sylw. Fodd bynnag, gwneir pob ymdrech i ddefnyddio'r gwyn i wella gwasanaethau a'r ffordd y darperir nhw.

‘UN WRECSAM’
SIARTER PERTHYN I WRECSAM

Rydym ni, y bobl sy’n byw a gweithio yn Wrecsam, yn ymroddedig i weithio gyda’n gilydd i sicrhau bod Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn lle heddychlon a chytûn i ni, ein plant, y gymuned ehangach a chenedlaethau’r dyfodol ac rydym yn cydnabod bod gennym oll ddiddordeb cyfartal yn ei dyfodol.

Rydym yn falch o Fwrdeistref Sirol Wrecsam, ei hieithoedd, ei hanes cyfoethog, ei ffydd a’i diwylliant, ei thraddodiadau ac amrywiaeth ei phobl.

Rydym yn cadw at ein hen draddodiad o groesawu ymwelwyr a newydd-ddyfodiaid i Fwrdeistref Sirol Wrecsam.

Byddwn yn sefyll gyda’n gilydd yn erbyn y rhai hynny sy’n ceisio creu rhaniad rhwng cymdogion i niweidio neu danseilio ein cymunedau a dinistrio ein heddwch.

Gwerthfawrogwn a pharchwn amrywiaeth a byddwn yn gwrthwynebu casineb, cenfigen, gwahaniaethu, beio neu ddrygeirio unrhyw ddinesydd, ymwelydd, grŵp neu gymuned yn ein Bwrdeistref Sirol gan gynnwys y rhai sy’n ceisio lloches yma.

Rydym yn cydnabod bod perthyn i Fwrdeistref Sirol Wrecsam yn cynnwys hawliau a chyfrifoldebau, rhoi yn ogystal â derbyn.

Ein hymroddiad:

Byddwn yn cadarnhau’r hyn sydd gennym yn gyffredin a’r hyn sy’n ein huno: dymuniad i fyw mewn heddwch ac yn ddiogel gyda’n gilydd, cael safon weddus o fyw a chanran deg o adnoddau, cyfle cyfartal mewn bywyd a mwynhau iechyd da;

Byddwn yn dathlu’r hyn sy’n dda am Fwrdeistref Sirol Wrecsam, cyfoethogrwydd ei threftadaeth Gymreig, traddodiadau diwylliannol, credoau, cymdogaethau amrywiol, ac egni, cymeriad ac amrywiaeth ei phobl;

Rydym yn cydnabod ac yn cefnogi hawliau cyfartal pawb ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam;

Gwrthodwn unrhyw fath o ragfarn, culfarn, taflu bai a thrais; ac;

Ym mhob dim a wnawn, byddwn yn gweithio i feithrin dealltwriaeth, cyfeillgarwch, cymdogrwydd a chyd-barch rhwng pawb sy’n perthyn i Fwrdeistref Sirol Wrecsam bob amser.

Llofnodwyd……..... Arweinydd y Cyngor Dyddiad……

Ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Llofnodwyd.....……Swydd…….

Ar ran ……...

‘UN WRECSAM’
Y SIARTER O BERTHYN I WRECSAM
FFURFLEN ADDEWID

Ar ran y mudiad a enwir isod, addawaf i gefnogi Un Wrecsam a’r gwerthoedd a amlinellir yn y siarter. Deallaf nad yw’r ffurflen hon yn ddogfen gyfreithiol orfodol ond yn addewid o’n hymroddiad parhaus i hybu cydraddoldeb a pharchu amrywiaeth. Cadarnhaf ein bod yn fodlon i chi gyhoeddi’r ymroddiad hwn a defnyddio enw ein mudiad mewn deunyddiau cyhoeddusrwydd Un Wrecsam.

Ein hymroddiad:

- Byddwn yn cadarnhau’r hyn sydd gennym yn gyffredin a’r hyn sy’n ein huno: dymuniad i fyw mewn heddwch ac yn ddiogel gyda’n gilydd, cael safon weddus o fyw a chanran deg o adnoddau, cyfle cyfartal mewn bywyd a mwynhau iechyd da;

- Byddwn yn dathlu’r hyn sy’n dda am Fwrdeistref Sirol Wrecsam, cyfoethogrwydd ei threftadaeth Gymreig, traddodiadau diwylliannol, credoau, cymdogaethau amrywiol, ac egni, cymeriad ac amrywiaeth ei phobl;

- Rydym yn cydnabod ac yn cefnogi hawliau cyfartal pawb ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam;

- Gwrthodwn unrhyw fath o ragfarn, culfarn, taflu bai a thrais; ac;

- Ym mhob dim a wnawn, byddwn yn gweithio i feithrin dealltwriaeth, cyfeillgarwch, cymdogrwydd a chyd-barch rhwng pawb sy’n perthyn i Fwrdeistref Sirol Wrecsam bob amser.

Enw’r mudiad ……..……

Enw’r sawl sy’n llofnodi ……..…….

Swydd y sawl sy’n llofnodi ……..……

Cyfeiriad
……

……Côd post ……..…

Rhif ffôn……..……

Enw a chyfeiriad ar gyfer gohebiaeth (os yw’n wahanol i’r uchod) ……...

……

Diolch am gwblhau’r ffurflen hon

Dychwelwch y ffurflen hon at:

Gill Grainger
Cydlynydd Glyniad Cymunedol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Stryt y Lampint
Wrecsam
LL11 1AR

I gael mwy o wybodaeth am Un Wrecsam, cysylltwch â Gill Grainger ar 01978 292535 neu www.gillian.grainger@wrexham.gov.uk